

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 159

Rhif 37

Medi 10, 2026

50c.

Ebeneser Llanfair PG

Bu'n gyfnod prysur yn eglwys Ebeneser Llanfairpwllgwyngyll, dyma beth o'r hanes.

Ffarwel – am y tro

Fore Sul yng Ngorffennaf eleni, cawsom fel eglwys gyfle i ddweud ffarwel am y tro ag un o'n haelodau ffyddlonaf ac anwylaf, Miss Wendy Davies. Mae Wendy wedi penderfynu symud i fyw i Ffair-fach, Llandeilo er mwyn bod yn agosach i'w theulu. Daeth Wendy atom fel aelod rhai blynyddoedd yn ôl a bu'n fwy na pharod i gyfrannu tuag at a chefnogi holl weithgareddau'r capel.



Ebeneser, oedd cynnal y te yn wreiddiol ond yn fuan roedd nifer o ffrindiau, teulu a chyd-aelodau o'r capel yn rhan o'r bwrlwm.

Gyda nifer o'r criw yn hen gyfarwydd â chegin y festri, daethpwyd ynghyd i gynnal te gwerth chweil mewn awyrgylch braf a hwyliog. Roedd y festri dan ei sang a chyda criw cerdded lleol yn taro i mewn am 11:00, bu'r criw gweini a golchi llestri wrthi'n ddi-stop tan ddiwedd y pnawn.

Cafwyd hwb dda i gychwyn y casglu gyda rhodd o £500 gan y capel, arian a gasglwyd trwy gynnal cyngerddau dros dymor y gaeaf y llynedd ac a glustnodwyd i'w drosglwyddo i elusen deilwng. Cafwyd rhoddion hefyd trwy wefan Justgiving.com, a da yw cael dweud fod dros £2,100 wedi ei gasglu erbyn hyn i'r achos teilwng hwn.

Dymuna Eluned a'i ffrindiau ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at yr achlysur arbennig yma.

Irfon Morris



Wedi'r oedfa, daeth pawb ynghyd i'r festri am baned (a dishgled i Wendy) a chawsom gyfle i glywed gair o ffarwel gan un o ddiaconiaid y capel, Derec Owen. Diolchodd yntau ar ran pawb am gyfeillgarwch a chyfraniad Wendy dros y blynyddoedd gan ein hatgoffa ei bod wedi gadael y rhan fwyaf o'i llyfrgell bersonol i ni fel capel. Yna, fe gafodd Wendy gyfle i ddweud gair ac fe ddwedodd ei bod yn trysori'r blynyddoedd y bu gyda ni a bod ganddi atgofion lu am achlysuron mawr a mân, rhai llawen a rhai dwys a diolchodd i bawb am eu cwmnïaeth a'n gofal ohoni.

Dymunwn bob bendith i Wendy yn ei chartref newydd.

Te pnawn

Ddydd Gwener, 14 Awst, cynhaliwyd te pnawn yn festri Ebeneser, er budd ymchwil cancr y fron (Breast Cancer Now).

Ysbyrdoliaeth Eluned Mason, un o aelodau



Cyngerdd Coffa Meirion Williams

Capel Cymraeg y Boro
90 Southwark Bridge Rd
Llundain SE1
Nos Sadwrn
3 Hydref 2026 am 7pm

Er budd hosbis
plant Tŷ Hafan



Mae Capel Cymraeg y Boro yn falch o gynnal Cyngerdd Coffa Meirion Williams.

Ganed Meirion Williams yn Nyffryn Ardudwy, Gwynedd, yn 1901 ond bu'n bianydd, organydd a chyfansoddwr yn Llundain drwy gydol ei oes. Bu yn cyfeilio i'r tenor David Lloyd mewn recordiad o ganeuon Cymreig i gwmni Decca. Mae ei ganeuon poblogaidd wedi eu recordio gan Bryn Terfel. Bu farw ar 4 Hydref 1976 ac fe'i claddwyd ym mynwent eglwys y plwyf Llanenddwyn ger Dyffryn Ardudwy. Bydd y gyngerdd

felly yn cofnodi hanner can mlynedd ers ei farwolaeth.

Bydd y cyngerdd yn cynnwys ei Missa Cambrensis, na chyhoeddwyd erioed. Credid fod y darn wedi mynd ar goll ond yn ddiweddar daeth i'r fei. Ysgrifennwyd y gwaith yn 1974 ar gyfer cynulleidfa eglwys Bened Sant yn Llundain, cartref yr Anglicaniaid Cymreig, ger eglwys gadeiriol St. Paul. Côr Cymraeg Capel y Boro fydd yn perfformio'r gwaith.

Bydd Sera Baines (soprano) o Lanelidan, Clwyd, a Steffan Lloyd Owen

(baswr/bariton) o Sir Fôn, enillydd cystadleuaeth opera Paris yn 2025 yn cymryd rhan a'r cyfeilydd fydd Aeron Preston.

Yn ogystal, bydd teyrnged i'r bardd a'r awdur Caradog Prichard a oedd yn ffrind mynwesol i Meirion Williams. Bydd perfformiad o'r gân 'Y Llŷn' gyda geiriau gan Caradog Prichard a darlleniad allan o Un Nos Ola Leuad gan yr actor Glyn Pritchard.

Bydd hefyd gerddoriaeth oedd yn boblogaidd iawn yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan Ryan Davies ac Ivor Novello; a byddwn yn coffáu 75 mlynedd ers marwolaeth Ivor Novello.

Bydd hefyd berfformiad arbennig gan Alice Newbould o'r concerto i'r trwmpeid gan Grace Williams. Roedd Grace Williams yn astudio gyda Vaughan Williams yn y Coleg Cerdd Brenhinol ar yr un pryd ag yr oedd Meirion Williams yn astudio'r piano yn yr Academi Cerdd Brenhinol. Mae'n bur debyg eu bod yn adnabod ei gilydd. Bu Grace Williams farw gwa bedwar mis ar ôl Meirion Williams yn 1977 a deufis cyn marwolaeth Ryan Davies. Bydd rhai o ganeuon Ryan yn cael eu canu yn union ar ôl y concerto i'r trwmpeid gan Grace Williams.

Tocynnau ar gael trwy:

<https://wegottickets.com/event/693992/>
(Mae'r tocyn yn cynnwys lluniaeth yn y neuadd isaf)

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
John Jones - 07770 268169
johnjones.calan@gmail.com

Rachie

Yn ddiweddar fe gyflwynwyd cyfres o bregethau gan y gweinidog ar Holl Arfogaeth Duw yn y chweched bennod o Lythyr Paul at yr Effesiaid. Pob Sul roedd y cyfeilyddion yn chwilio am emynau addas i gyd fynd â'r testun. Er tegwch iddynt llwyddwyd i ganfod nifer o rai perthnasol i'r pwnc. Ond roedd rhai o'r gynulleidfa yn awyddus i ni ganu 'I bob un sy'n ffyddlon' ar y dôn Rachie. Ond roedd y gweinidog yn Fictorianaid ac wrth gwrs yn ddirwestol, ac nid yw pawb yn Ebeneser yn llwrymwrthodwyr, felly rhagrith fyddai i ni ei ganu.

Felly, yn ddiymdroi ac yn gwbl ddigywilydd anfonwyd neges at y Prifardd Siôn Aled yn gofyn a fyddai'n ysgrifennu geiriau newydd i gyd fynd â'r dôn Rachie. O fewn ychydig ddyddiau fe anfonodd yr emyn canlynol er mwyn inni ei ddefnyddio ac fe'i canwyd gydag argyhoeddiad y Sul dilynol. Diolch i Siôn – y saer geiriau arobryn – am y gymwynas. Y mae croeso i chi ddefnyddio'r emyn yn eich oedfaon.

Arfau Goleuni

Byddwn fyddin cariad,
milwyr lifrai'r gwas,
nid er lladd na choncwest,

dim ond concwest gras:
cariad Iesu'n unig
all drawsnewid byd,
a thrwy angau Iesu
angau wnaed yn fud.

Byddwn fyddin cariad,
milwyr lifrai'r gwas,
nid er lladd na choncwest,
dim ond concwest gras:

Safwn dros gyfiawnder,
safwn dros y tlawd,
safwn dros ddynoliaeth,
dros bob chwaer a brawd;
os 'Ein Tad' ynganwn
byddwn driw i'n ffydd:
galwn bawb i'r golau
ac i deulu'r dydd.

Pan fo delwau euraid
yn dynwared Duw,
safwn fyth heb blygu
er mor gostus yw;
Ysbryd Duw sy'n dymchwel
pob rhyw eilun gau:
celwydd gipia'i gyfle,
ond gwna'r gwir barhau!

Siôn Aled 16/06/26

(Allan o'r Llusern, Gorffennaf / Awst
2026, deufisolyn Ebeneser, Caerdydd.)

Arfau Goleuni

Byddwn fyddin cariad,
milwyr lifrai'r gwas,
nid er lladd na choncwest,
dim ond concwest gras:

cariad Iesu'n unig
all drawsnewid byd,
a thrwy angau Iesu
angau wnaed yn fud.



Sul Digartrefedd, 4 Hydref 2026

Bob blwyddyn, bydd yr elusen Housing Justice Cymru yn cynnal Sul Digartrefedd ar y Sul cyn Diwrnod Digartrefedd y Byd. Eleni, mae Sul Digartrefedd yn disgyn ar 4 Hydref, a'r thema yw 'Cydluniant Cymunedol'. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â digartrefedd ymhlith eglwysi a'u cynulleidfaoedd drwy ofyn i eglwysi gynnal eu Gwasanaeth Sul Digartrefedd eu hunain, naill ai ar 4 Hydref neu ar ddyddiad arall cyfleus.

Drwy gymryd amser i fyfyrion ar Sul Digartrefedd, gobeithiwn y bydd cynulleidfaoedd eglwysig yn ystyried yr hyn y gallant ei wneud yn eu cymuned eu hunain i liniaru digartrefedd, dioddefaint a thlodi.

Ystadegau digartrefedd diweddaraf Cymru:

Llety dros dro a theuluoedd

Roedd 6,201 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2026, gostyngiad o 3% ar y flwyddyn flaenorol. Gwely a brecwast a gwestai oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o aelwydydd mewn llety dros dro (2,187 o aelwydydd neu 35%), i lawr o 2,532 y flwyddyn flaenorol.

Cysgu ar y stryd

Nid oes gan Gymru broblem sylweddol gyda chysgu ar y stryd fel sydd yn Lloegr. Ond mae'r data diweddaraf yn dangos bod amcangyfrif o 143 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru ym mis Mawrth 2026.

Dyletswyddau Cymorth Cyngorau Cymru

Roedd nifer yr aelwydydd a aseswyd fel rhai digartref ac yr oedd dyletswydd arnynt i helpu i sicrhau llety (Adran 73) yn 12,183, gostyngiad o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd 7,017 o aelwydydd fel rhai digartref yn anfwriadol ac angen blaenoriaeth (Adran 75), gostyngiad o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

Beth all eich cynulleidfa ei wneud?

Bydd pob ardal yn wynebu heriau gwahanol ac mae'n bwysig cofio nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth gynyddol fod atebion sy'n seiliedig ar y gymuned yn hanfodol i leihau digartrefedd yn ein plith.

- Beth am wirfoddoli mewn lloches nos leol, cegin gawl neu brosiect cymunedol fel Citadel? Mae'n debygol y bydd nifer o sefydliadau yn eich ardal yn chwilio am wirfoddolwyr, ac



os na allwch ddod o hyd i un addas a'ch bod yn credu bod angen un, a allai eich eglwys agor ei drysau i ddarparu bwyd neu wely i rywun sy'n ddigartref?

- Beth am groesawu rhywun sy'n chwilio am loches ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i'ch ystafell sbâr? Mae Housing Justice Cymru yn cynnal Prosiectau Lletya ac maent bob amser yn chwilio am westeiwyr newydd i agor eu cartrefi i gynnig llety.
- Beth am rentu eich ystafell i rywun sydd newydd gael statws ffoadur am gyfnod o chwe mis drwy Brosiect Llety Ffoaduriaid Housing Justice Cymru?
- Cymerwch ran mewn Digwyddiad Her gyda'ch ffrindiau neu trefnwch gasgliad ariannol mewn ysgol i godi arian i elusen digartrefedd o'ch dewis.
- Rhowch rodd i elusen ddigartrefedd o'ch dewis.

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan:


<https://housingjustice.org.uk/>

Gweddï

Arglwydd, cyfaddefwn fod ein ffydd
yn teimlo'n wan ar adegau.
Ond rydym yn rhoi ein hedyn mwstard i Ti,
gan ymddiried ynot Ti i'w dyfu.
Dysg i ni weld ein cymdogion
fel yr wyt Ti yn eu gweld nhw —
i garu nid yn unig â geiriau
ond hefyd â gweithredoedd.
Cymer ein camau bach,
a defnyddia nhw i ddod â'th deyrnas yma ar y
ddaeear,
ar gyfer pob cymydog heb gartref,
a phob calon sy'n hiraethu am noddfa. Amen.

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 34

Ymson Siffra a Pua

Siffra: Fe ges i orchymyn i fynd i'r palas. Ro'n i'n gwybod ym mêr fy esgyrn nad rhywbeth da oedd yn fy ngalw. Pan glywais y gorchymyn i ladd pob bachgen, aeth rhywbeth drwof, rhyw saeth benderfynol! Lladd plentyn? Na, nid fi.

Fe'i galwodd yn bolisi. Fe'i galwodd yn weithred angenrheidiol. Fe'i galwodd yn fater o ddiogelwch. Ond ro'n i'n gwybod mai'r hyn yr oedd e'n ei ddisgrifio oedd hil-laddiad.

Doedden ni ddim wedi arfer ymladd, erioed wedi gafael mewn cleddyf, a doedd dim byddin y tu ôl inni. Yr hyn oedd yn ein dwylo? Cadachau, dŵr, olew, dwylo glân a bywyd pob babi bach sy'n cyrraedd y byd hwn. Dyna ichi fraint!

Pua: Mae pobl yn tueddu i weld dewrder fel rhywbeth sy'n cyd-fynd ag areithiau, a thorfeidd o bobl yn cymeradwyo. Rhywbeth sy'n digwydd yn y fan a'r lle, rhywbeth cyflym. Ond weithiau, mae dewrder yn sibrdw, 'Na'. Weithiau, proses araf yw hi, dros amser. Weithiau, y gair mwyaf sanctaidd yw 'Na'.

Doedd dim pwyllgor, dim strategaeth, dim trafod hyd yn oed. Yr hyn a wnaethom ein dwy oedd penderfynu. Roedd hawl gan bob babi i gael cyfle i fyw. Mae pob genedigaeth yn fregus, pob plentyn yn drysor, pob gwaedd fach newydd yn llwyddiant. Byddai pob mam newydd o hyn ymlaen yn brawf ein bod yn gwrthod grym dinistriol Pharo.

Siffra: Bydd pobl yn holi 'Sut gafodd Moses ei arbed?' Wyddon nhw ddim amdana i a Pua. Cyn bod sôn am fased yn llechu ym mrwyn yr afon a Miriam yn cuddio fan draw, roedd dwy. Dwy fydwaig a wrthododd fod yn

llofruddion. Bydd hanes yn clodfori'r un a rannodd y Môr Coch yn ddau, a bydd hanes yn anghofio amdanom ni a wnaeth yn siŵr ei fod yn byw i wneud hynny!

Pua: Dyw fy stori i a Siffra ddim yn gorffen yn yr Aifft. Bydd yn atsain ym mha le bynnag y bydd rhywun yn gwrthod ildio, yn gwrthod derbyn trais, yn gwrthsefyll pob drwg. Pan fo merch yn siarad yn hytrach na chadw'n dawel. Pan fo mamau'n amddiffyn eu plant dan warchae creulondeb. Pan fo athro'n sefyll yn gryf o blaid y gwan. Pan fo meddyg yn gwrthod ystyried rhoi'r gorau i roi triniaeth. Pan fo newyddiadurwr yn adrodd y stori wir. Pan fo cyfreithiwr yn ymladd ei achos yn onest. Pan fo cymydog yn agor y drws. Pan fo ffrind yn cofio am ei ffrind. Pan fo mam-gu yn dysgu ei hwyrion beth yw ymddygiad da. Pan fo merch yn ei harddegau'n darganfod nad yw dewrder yn disgwyl am ganiatâd. Pan fo gweinidog yn gweithredu'r Gair.

Siffra: Peidiwch, da chi, â gweld tynerwch fel gwendid. Efallai mai'r dwylo mwyaf tyner fydd yn eich helpu chi ryw ddydd. Ie, efallai mai chi fydd angen y dwylo hynny, neu efallai'n wir mai eich dwylo chi fydd yn estyn cymorth. Ac os ydych chi'n pendroni sut y gallwch chi wneud gwahaniaeth, agorwch eich llygaid. Mae Pharo eich dyddiau chi yn aros am ei gyfle. Bydd Duw yn eich galw chithau i ddewis ei barchu a gweithredu'r parch hwnnw, nid dim ond credu ynddo.

Holi

- Bydwagedd arferol yn gweithio yn eu cymuned oedd Siffra a Pua. Beth, gredwch chi, roddodd y cryfder iddynt, er mor anodd oedd hynny, i wneud y penderfyniad i wrthsefyll gorchymyn Pharo? A gofiwch chi am ryw adeg, yn eich bywyd chi neu ym mywyd yr eglwys, pryd y bu'n anodd gwneud penderfyniad?
- Dyma stori am ddewrder tawel. Pa sefyllfaoedd heddiw sy'n gofyn inni efelychu hynny?
- Defnyddiodd Pharo ei rym i geisio gwneud drwg. Oes pethau drwg ar waith yn ein cymunedau (byw a digidol) y dylem ni godi llais yn eu herbyn?
- Pe byddai Siffra a Pua yn eistedd gyda chi nawr, beth fyddai ganddynt i'w ddweud? Sut fydden nhw'n eich cymell i weithredu ac ar beth?
- Oes yna sefyllfa sydd angen eich sylw, sgwrs y dylech ei chael, cam ffyddiog y medrwch ei gymryd, neu rhywbeth rydych chi wedi bod yn ei osgoi? Wrth adael y trafodaethau neu'r myfyrio hwn, oes modd rhoi dewrder ar waith rywsut yn eich bywyd?

Gweddi

Sut mae bod yn ddewr?
Atgyfnertha ni.
Sut mae lleddfu ein hofnau?
Cysura ni.
Sut mae deall dirgelion bywyd?
Goleua ni.
Sut mae ymgodymu â'r drwg?
Glanha ni.
Sut mae ymdopi â phethau anodd?
Dangos inni.
Gwyddom mai Ti sy'n gwneud y gwaith. Rwy't yn gweithio trwom ni. Gwna ni'n effro a pharod.
Gwyddom dy fod yn dymuno'r gorau i bob enaid byw. Rwy't yn ein caru. Gwna ni'n gyfryngwyr. Amen.

Siân Meinir



**Cyhoeddiadau Radio a Theledu,
13 Medi 2026**

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 13 Medi, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng
nghwmni Beti Griffiths, Llanilar

Oedfa Radio Cymru
Sul, 13 Medi, am 12:00yp
Oedfa o dan arweiniad Robert Owen Roberts, Morfa Nefyn

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 13 Medi, am 8:00yh
Ymunwch â Nia Roberts mewn cyfres newydd lle byddwn yn dathlu hanes addysg Gymraeg yng Nghwm Rhondda

Sul Dathlu Henaint, 4 Hydref 2026

gan y Parch. Maggie Rich

Yn ystod ei llywyddiaeth, bu'r Parch. Maggie Rich, Llywydd UBC (Adain Ddi-Gymraeg), yn hyrwyddo pwysigrwydd yr henoed yn ein plith. Yma, clywn am brosiect newydd hyfryd: diwrnod i nodi ac i ddathlu ffyddlondeb credinwyr hŷn yn ein plith, o'r enw 'Sul Dathlu Henaint'. Clywn hefyd fyfyrddodau ar arwyddocâd y diwrnod hwn gan y Parch. Peter Thomas.

Dyma weledigaeth y Parch. Maggie Rich:

'Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe wnaeth y Parch. Peter Thomas gyflwyno Prosiect Caleb yn ffocysu ar henoed. Yn ystod fy llywyddiaeth yn yr Adain Ddi-Gymraeg, fe fŷm i hefyd yn canolbwyntio ar henoed, yn ein heglwys ac yn ein cymunedau. Eleni, fe fuom ni'n ffodus i gynnal prosiectau peilot ar gyfer UBC o'r enw "Celebrating Age / Dathlu Henaint". Fe ddewisom ni'r dyddiad ym mis Hydref gan mai hwnnw yw'r diwrnod y mae Age Cymru yn ei benodi fel 'Sul Arian'.

'Fe wnaeth y bobl hŷn yn y tair eglwys lle rydw i'n weinidog – ac Eglwys Rydd sy'n ymuno â ni yn gyson – ddod at ei gilydd ar brynhawn Sul ar gyfer gwasanaeth naws caffi. Fe wnaethom ni ystyried thema "ffyddlondeb": o ran eu ffyddlondeb mewn gweddi a gwasanaeth dros y blynyddoedd a ffyddlondeb Duw. Fe edrychom ni ar hanes Simeon ac Anna yn y deml: ffyddlondeb Duw yn ei addewid i Simeon y byddai'n wir yn gweld Meseia Duw, a ffyddlondeb Anna yn ymprydio ac yn gweddïo am sawl blwyddyn.

'Darllenwyd cerdd Eleanor Farjeon "Mrs Malone": y gwasanaeth i'r rhai mewn angen sy'n aml yn dawel a heb sylw, ond y mae Duw yn ei weld. Fe fuom ni hefyd yn ystyried gweinidogaeth ieuencid, a phwysigrwydd y "gwreiddiau" hyn o fewn yr eglwys i gynnal a chryfhau'r weinidogaeth honno. Ar ôl y gwasanaeth, gweinwyd te prynhawn llawn i'r henoed gan y rhai iau a rhannwyd straeon o amgylch y ford. Mae ein henoed mor bwysig, ac mae'n dda cymryd y cyfle i ddiolch iddyn nhw, ac i ddangos gwerthfawrogiad am yr hyn y maent wedi ei wneud yn y gorffennol – ac mewn sawl achos yn parhau i'w wneud.'

Meddai'r Parch. Peter Thomas:

'Y mae'r Sul hwn yn gyfle inni sylweddoli'r gwerth a'r potensial a berthyn i bawb wrth iddynt dyfu'n hŷn – yn gyfle inni ddathlu yr hyn ydym a'r hyn y medrwn barhau i'w gyfrannu mewn cymuned ac eglwys.

'Y mae Gair Duw yn rhoi gwerth ac amlygrwydd i henaint, ac y mae Salm 92, adnod 13, yn ein hatgoffa: "Y maent wedi eu plannu yn Nhŷ'r Arglwydd ac yn blodeuo yng nghynteddau Duw. Rhônt ffrwyth hyd yn oed mewn henaint." Roedd Abraham yn hen ŵr, naw deg pedwar blwydd oed, pan ddywedodd Duw wrtho y byddai'n dod yn dad cenedl fawr ac y byddai Sara, ei wraig, yn cenhedlu plentyn a hithau'n naw deg dau blwydd oed. Pan drosglwyddwyd yr awenau i Josua i arwain y genedl i mewn i wlad Canaan yr oedd yntau hefyd wedi croesi oed yr addewid, a pharhaodd i arwain y genedl honno hyd nes ei farw yn 110 blwydd oed. Y mae'r Apostol Paul yn cyfeirio ato'i hun yn ei lythyr at Philemon fel "Paul, yr hen ddyn bellach" ac eto gwyddom ei fod yn dal wrthi'n brysur yn ysgrifennu llythyron at eglwysy Effesus, Colosia a Philipi, ac yntau mewn carchar. Y mae llawer o enghreifftiau eraill o'r modd y defnyddiodd Duw unigolion ym mlynnyddoedd euraidd eu bywyd i fod o wasanaeth ac i ddwyn ffrwyth yn eu henaint. Y mae proffwyd Ezeia yn nodi y bydd "y rhai sydd a'u gobaith yn yr Arglwydd yn adnewyddu eu nerth. Byddant yn hedfan ar adenydd fel eryrod; byddant yn rhedeg ac ni fyddant yn flinedig, byddant yn cerdded ac ni fyddant yn llewygu". Nid yw cynhaliaeth a nerth Duw yn lleihau wrth inni dyfu'n hŷn!

'Gallwn barhau i fod o wasanaeth ym mlynnyddoedd ein henaint oherwydd bod Duw yn rhoi'r grym a'r gallu inni wneud hynny; bydd yn ein hadnewyddu ac yn ein grymuso i ddal ati. Mae'r Sul hwn nid yn unig yn gyfle i ddathlu henaint, ond yn her inni sydd wedi cyrraedd y tymor hwnnw mewn bywyd i ystyried y breintiau a'r cyfleoedd y mae Duw yn parhau i'w cynnig inni a'r drysau y mae ef yn dal i'w hagar yn ein hanes. Ymddiriedwn ynddo a chyfeirio ein bywydau yn glod ac yn ogoniant i'w enw.'



Gair gan Aled

Chwa Fwyn

(addasiad o 'Warm Wind' gan Mal Pope)

Bu'r lôn yn hir
ers creu y byd,
ers y wawrddydd gu
lle galwyd fy enw.
Gyda threigl oes,
ac er her pob nos,
drwy ryw ryfedd ras
fe erys rhai pethau run fath.

Mae 'na chwa fwyn
yn yr awyr heno,
ac mae'n rhaid i mi ildio
ger ei bron.

Bu fy nhaith ar chwâl
collais f'egni'n llwyr,
colli hunan werth
methu brwydro 'mlaen.
Ond rwy'n credu o hyd
y daw i'm rhan y Golud
a phob addewid Nef
yn drysor i mi'n stôr.

Mae 'na chwa fwyn
yn fy nghalon heno,

ac mae'n mynnu gorlifo
drwy 'mywyd i.
Mae 'na chwa fwyn
a dw i o dan ei dylanwad,
mae gwirionedd canrifoedd
yn dal ei dir.
Mae 'na chwa fwyn
yn ein bröydd heddiw,
yn dal i'n bendithio
fel erioed.
Mae 'na chwa fwyn
sy'n sgubo'r cyfan o'i lwybr
yn anwylo yr hwyrddydd
fel erioed.
Mae 'na chwa fwyn
yn fy nghalon i heno
ac ni fedraf fyw hebddo
ddyddiau f'oes.
Mae 'na chwa fwyn
yn ein plith ni heno,
wedi dod i'n cyfeirio
eto'n ôl.
Mae 'na chwa fwyn
digon i'r holl genhedloedd,
gwirionedd y canrifoedd,
dal yn fyw.

Aled Lewis Evans

(allan o *Shalom*, *Capel y Groes* –
Ebeneser, Wrecsam, Rhif 518 Gorffennaf
ac Awst 2026)

Pantfyedwen: Un dôn, dau emyn

Yn ddiweddar, mewn tridiau ar dri
achlysur, ces achos eto i werthfawrogi'r
dôn Pantfyedwen, campwaith Eddie Evans
(1890–1984). Mewn dau achlysur
roeddwn yn aelod o gynulleidfa o
Annibynwyr, yn dilyn y geiriau ar sgrin.
Yn y trydydd roeddwn yn darllen llyfryn
yn disgrifio oedfa ordeinio diaconiaid yng
nghadeirlan Llandaf; roedd y llyfryn yn
dangos y dôn a'r geiriau, dau bennill
Cymraeg ac un trosiad Saesneg.

Pa eiriau?

Wel, wrth
gwrs, campwaith W.
Rhys Nicholas
(1914–96),
'Tydi a wnaeth
y wyrth, O
Grist, Fab
Duw...' Mae
dwy linell
ogoneddus olaf
pob pennill yn
cael eu hailganu, 'mae'r Halelwia...' OND beth a glywais? 'mae'r Hale liw ia ...' nid 'mae'r Hale lw ia...' fel sy yn *Caneuon Ffydd* (ers 2001). Yn y gadeirlan yn y llyfryn oedfa roedd y penillion Cymraeg yn cynnwys 'Mae'r Haleliwia



(nid sillafiad *Caneuon Ffydd*; cofier bod yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru yn aelod o'r Pwyllgor Cydenwadol). Mae pennill y trosiad Saesneg yn dangos Hallelujah. Noder bod camacennu wrth ganu 791. Wyddoch chi hynny? Wyddwn i ddim nes darllen *Cydymaith Caneuon Ffydd*. Diolch i Delyth Morgans. Mae emyn 908 yn drosiad Saesneg gwyh. A oes un ar gyfer 133?

Gyda llaw, bydd y miloedd sy'n ymgolli wrth ganu'r geiriau gwreiddiol yn nabod yr emynydd fel Rhys, ond rwy'n deall mai Bill oedd y cyswllt cynnes rhyngddo â'i deulu a chyfeillion agos.

A oes cyflyru wedi digwydd yn ein plith ni'r Cymry Cymraeg sy'n peri i ni ynganu 'liw', hynny yw, yn hytrach na 'lw' sy'n rhy Seisnig? Ond, yn fy marn i, mae gwaeth cyflyru ar waith, oherwydd mae gan y dôn ddau emyn (791 a 133), ond prin iawn y cyhoeddir a chenir yr ail un. Yr un emynydd a'r geirio eto yn ffrwyth myfyrdod treiddgar a gweledigaeth. Mae emyn 133 hefyd yn cynnwys dwy linell ar ddiwedd pob pennill sy'n galw am ailganu, 'moliannwn ef, Cynhaliwr cadarn yw, / y sanctaidd Iôr a'r digyfnawid Dduw.'

Mae syllu ar eiriau'r ddau emyn yn



Diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys

Dewch i ymuno â ni mewn diwrnod arbennig sy'n canolbwyntio ar y thema
CYFATHREBU

Dydd Mawrth, 13 Hydref 2026 yn Llety'r Parc, Aberystwyth

10:00 Te / coffi

10:15 **Sian Meinir a'r Parchedig Beti-Wyn James**
Defosiwn yn seiliedig ar benderfyniad adran Yr Eglwys a'u Gweinidogaeth yng Nghyfarfodydd Blynnyddol yr Undeb.

10:45 **Delyth Phillips**
Yr emyn fel cyfrwng cyfathrebu

11:45 Te / coffi

12:00 **Sian Owen**
Eglwys Gynhwysol - yr angen i gyfathrebu'n effeithiol.

13:00 Cinio

13:30 **Trafodaeth**
'Cyfathrebu effeithiol - allwedd i'n cenhadaeth'

14:00 **Parchedig Cass Meurig**
'Chwarae a Chredu' - Godly Play yn y Gymraeg. Cyfle i ddysgu mwy am yr adnodd hwn i gyfathrebu â phlant.

15:00 **Parchedig Cass Meurig**
Defosiwn i gloi'r diwrnod ar ffurf 'Chwarae a Chredu'

15:30 Te / coffi ac ymadael

Cofrestrwch erbyn 30 Medi 2026 - carwyn@annibynwyr.cymru

Bydd croeso cynnes yn eich disgwyf

Cyfundeb De Ddwyrain Cymru

Ymrwymo i Fywyd

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr

Medi 27, 2026 - 10yb-12yp

Gweithy Pum Peth Personol
dan ofal
Fiona Gannon

Gweithdy Eco Eglwys
dan ofal
Delyth Higgins

Addangosfa celf gan artist lleol
David Robinson

Gweithgareddau i blant ac ieuencid

Amserlen

10:00yb - Paned a Chymdeithasu

10:30yb - Addoliad

10:45yb - Pum Peth Personol

11:00yb - Gweithdai amrywiol

11:45yb - Y Ffentha ac ymadael

Gwreiddio'n gobaith yng nghredigaeth Duw

Bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Croeso cynnes i bob un

amlygu gwahaniaeth allweddol yn eu pwyslais diwinyddol; ar Iesu mae 791 yn hoelio sylw, tra bod 133 yn disgrifio Duw. Gallaf yn hawdd ddychmygu oedfa yn cynnwys dim ond y ddau emyn hyn; sôn am ganu gorfoleddus yn atgyfnerthu pregethu/myfyrio cynhwysfawr ar hanfodion ein ffydd. Beth am fentro?

Petaech yn llunio oedfa amlffydd pa emyn fydddech yn ei gynnwys, 133 neu 791?

Neville Evans

Golygyddol

Canwch i'r Arglwydd gân newydd

Mae'n ddigon naturiol i ni, mae'n siŵr, yn nechrau Medi, edrych yn ôl ar fis Awst, ac i lawer ohonom mae wythnos gynta'r mis hwnnw wedi'i neilltuo i'r Eisteddfod Genedlaethol. Ac yr oedd Eisteddfod Y Garreg Las eleni yn chwip o un ymhob ystyr.

Dechrau'r Eisteddfod

Mae cael dechrau da yn ysgogiad i weddill popeth. I mi, 'dechrau' neu 'cic-off' yr eisteddfod eleni oedd y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn nos Sul 2 Awst. Cyn i neb fy meirniadu am beidio cynnwys y cystadlu ar Sadwrn cynta'r eisteddfod na'r oedfa ar y bore Sul, che's i ddim cyfle i fod yno na gwylio na gwrando oherwydd amgylchiadau gwahanol. Ond mi glywais a gweld y gymanfa, ac o'r dechrau'n deg roedd hi'n odidog.

Arweinydd da

Trawodd Daniel Rees, yr arweinydd y tant cwbl gywir o'r dechrau. Aeth yn ffasiynol mewn llawer cymanfa ar hyd y blynyddoedd i geisio arweinydd fyddai'n gerddor 'proffesiynol', ac o ganlyniad i hynny yn creu mur rhwng 'proffesiynol' ac 'amatur' – mur na ffin na ddylid ei godi. Cawsom wybod mai postmon oedd Daniel wrth ei waith beunyddiol; cawsom wybod hefyd ei fod yn aelod

eglwysig ac yn ysgrifennydd yr eglwys (yn digwydd bod, un o eglwysi'r Annibynwyr – Soar, Penboyr). Llywiodd eiriau'r emynau'n ystyrlon drwy gyfrwng y tonau (sy'n gryn dipyn o gamp i gynulleidfa fawr), a thrwy hynny gwelsom y geiriau'n cael eu cyfoethogi gan donau campus. Roedd ynddo hefyd stôr o hiwmor ac unplygrwydd a'n cynhesodd ni fel cynulleidfa, boed yn y pafiliwn neu'n gwylio a gwrando ar deledu. Cymorth mawr, wrth gwrs, oedd cael Jane Watts wrth yr organ, oedd yn cyfeilio ac nid yn unig yn chwarae nodau – ac mae 'na wahaniaeth!



Eisin ar y deisen

I ni yn Eifionydd, ac yn arbennig yng Nghricieth a Chapel y Traeth, roedd yn destun balchder mai un o'n haelodau ac organyddion enillodd y wobwr am gyfansoddi tŷn. Ond, wrth gwrs, brodor o Landudoch yn sir Aberteifi yw Hugh Gwynne, ac un o'r cerddorion mwyaf

diymhongar sydd ar gael. Bu'n athro cerdd am flynyddoedd yn ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog, ac yn gefn i bawb a chefn i weinidog. Llongyfarchiadau calonnog Hugh.

Ieuan Gwyllt

Gan i John Roberts, neu Ieuan Gwyllt (1822–77) roi cymaint o fri ar gymanfaoedd canu fel cyfrwng i gyfoethogi mawl i'r Arglwydd yn hytrach na dim ond 'sing-along', mi fyddai ef a sawl un arall wedi bod yn falch iawn o'r gymanfa honno ym mhafiliwn y brifwyl eleni.

'....a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.'
Diolch am i hynny ddiwydd eleni.

Iwan Llewelyn

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MODIWL Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

Nos Lun, 7 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 14 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 21 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 28 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 5 Hydref	7:30 – 9:00	Zoom
Dydd Llun, 12 Hydref	10:00 – 3:00	Aberystwyth

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn 'beth yw sacrament?', edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a'r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb

Logos Hope

Bydd y llong Logos Hope yn angori ym mae Caerdydd o 10 i 29 Medi 2026. Llong genhadol yw hon yn cael ei rhedeg gan Operation Mobilisation (OM). Y mae'n morio ar hyd a lled y byd gan wasanaethu'r gymuned yn y gwledydd lle maent yn angori. Mae oddeutu 60 o bobl o wahanol genhedloedd ar fwrdd y llong sy'n fynegiant o ewyllys da a dealltwriaeth ryngwladol. Mae'r criw a'r staff i gyd yn wirfoddolwyr digyflog, rhai ohonynt yn gwasanaethu yn rhinwedd eu swydd broffesiynol, fel morwyr, peirianwyr, trydanwyr, niysys, athrawon a chogyddion.

Ym mis Medi byddant yma yng Nghaerdydd a bydd nifer o weithgareddau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal. Fe ddaw amserlen gyflawn i'r fei maes o law. Cynhelir cyfarfod Cymraeg 'Dwylo dros y môr' ar nos Fercher 16 ar y llong sydd yn agored i bawb ohonom.

DWYLO DROS Y MOR (HANDS OVER THE SEA)

DYDD MERCHER 16EG MEDI 2026 • 7:30PM

CEI BRITANIA, BAE ROATH, CAERDYDD

Dewch i glywed am bobl anhygoel yn y gorfennol, sydd wedi cario golau Crist o Gymru i bedwar ban y byd. Gyda Mike Adams (Eglwys Parklands, Abertawe) ac Alun Tudur (Ebeneser Caerdydd), ac eraill.

SGANIWCH Y COD NEU GWELWCH FWY

GWITHREDU SYMUDOLIAD | SWDDFA GOFRESTREDIG: The Quinta, Weston Rhyn, Cwmwyst Shropshire SY10 7LT
Cofrestrwch i'w canny cyflwynedig drwy wariant rhif 254029 a ac elusen rhif 1063109 yn Lloegr a Cymru

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Sul y Cyfundeb

Bore Sul, 27 Medi 2026
am 10.30 o'r gloch

Ebeneser, Brynaman SA18 1TF

Oedfa o Fawl

Dewch i ganu mawl i gyfeiliant band pres

Cyflwynir emynau gan rai o eglwysi'r Cyfundeb

Darperir lluniaueth

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Llongyfarchiadau ... deugain mlynedd

Hogyn tair dinas

Bangor, Wrecsam a Chaerdydd! Dyna'r tair dinas sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd Alun Tudur, er bod gwreiddiau ei deulu, o ochr ei fam yn Nyffryn Madog, ac o ochr ei dad yn Eifionydd. Ym Mangor y ganwyd ac y magwyd Alun, fel y gwyddom ni – yr ieuengaf o bump o blant galluog Robert Tudur a Gwenllian Jones. Yn y ddinas hon y derbyniodd ei addysg gynradd, uwchradd a phrifysgol, a gadawodd y ddinas ddylanwad arhosol arno.

Yng ngwaelod Bangor yr oedd capel Pendref, ac yno o dan weinidogaeth y Parchg John Gwilym Jones y codwyd Alun, fel amryw o rai eraill, i'r weinidogaeth. A sonia Alun yn gyson am ddylanwad capel Pendref.

Wrecsam a Chaerdydd

Fe'i hordeiniwyd a'i sefydlu ym mis Medi 1986 yn Ebeneser, Wrecsam, a bu yno'n fawr iawn ei barch am naw mlynedd cyn symud i Ebeneser arall, Ebeneser, Caerdydd yn 1995, a bellach mae wedi treulio 31 o flynyddoedd yn y ddinas honno. Yn y ddwy ddinas gwelwyd gweinidogaeth y gair a'r sacramentau a'r weinidogaeth fugeiliol dyner ar waith ganddo.

Y mae f'adnabyddiaeth bersonol i o Alun yn mynd yn ôl ddegawdau bellach, ac ni fedraf ond diolch iddo am ei gyfeillgarwch a'i gefnogaeth. Fo oedd fy ngwas priodas i ac Elen, a minnau'n organydd yn ei briodas yntau a Vikki yn y Tabernacl, Llanrwst. A phan oedd Alun a Vikki yn byw yn Wrecsam, pur gyson oedd y teithio rhwng naill ai'r Brithdir neu Borth-y-Gest â Wrecsam, ac fel arall. Buom ar dro yn newid pulpudau hefyd.

Dim cywilydd

Mae Alun yn gadarn ei ffydd – does dim dwywaith am hynny. Gwyddom i gyd ymhle y mae'n sefyll, a chofiaf (syndod!) un o'i bregethau ar yr adnod gan Paul: 'Nid oes arnaf gywilydd o Efengyl



Dydd ordeinio Alun. Yn y Llun gwelir Rhys Tudur, R. Tudur Jones ac Alun a Vikki Tudur

Crist, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith ...' (Rhufeiniaid 1:16) A does gan Alun ddim owns o gywilydd o'r Efengyl, ac ar hyd y blynyddoedd fe'i traethodd yn ddi-ofn, yn ostyngedig a dealladwy. D'aiff neb o oedfa heb ddeall yr hyn y mae wedi'i ddweud, ac yn ychwanegol at hynny, ceir stôr da o hiwmor ganddo wrth draethu.

Mae hefyd yn ysgolhaig o'r radd flaenaf – yn hanesydd praff, a phan aiff ati i ddarlithio bydd y gwaith ymchwil yn dryloyw, a'r traethu eto'n hynod o gartrefol a gafaengar. Rhwng hynny ac iaith goeth, does ryfedd iddo wneud cyfraniad sylweddol fel prif olygydd Y Tyst er 2009.

I'r sawl na wŷr, mae'n gitarydd a lleisiwr da, ac yn y blynyddoedd a fu, buom yn canu deuawdau! Wir rŵan! Gofynnwch iddo am ein trosiad o un o ganeuon Triawd y Coleg – 'Dau fyfyrwr ydym ni...'

Ar ein rhan ni i gyd, diolch i ti Alun am dy weinidogaeth, a llongyfarchiadau ar ddathlu deugain mlynedd yn y weinidogaeth Gristnogol. Os cyfeiriais ar y dechrau at dair dinas, ystyria Alun mai ei fraint o a phawb arall ohonom ni sydd yn y gwaith ydi cyfeirio at 'ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac adeiladydd iddi.' (Hebreaid 11:10)

Bendith arnat ti, Vikki, Gwilym a Lowri a'u teuluoedd.

Iwan Llewelyn



Diaconiaid Ebeneser Wrecsam 1986.



Diaconiaid Ebeneser Caerdydd c. 1996